Rhif 3 **Yr Hen Wlad** Mai 1994

## At Gymry Patagonia

**Cyfarchion efo rhifyn arall o *Yr Hen Wlad*. Daeth gair o ddiolch gan Gwalia Davies de Evans a Gwilym Roberts ond ni chafwyd ymateb i'r Gystadleuaeth. 'Roeddem yn siomedig am hyn.**

**Siomedig hefyd na ddaeth ond un ymateb gan Gymdeithas Cymry Ariannin am bapurau bro Cymru a fuasai yn ein galluogi i ddod o hyd i ragor o hanesion am Dde a Gorllewin Cymru.**

**'Rydym yn galonnog fodd bynnag wrth weld ambell "bren yn dechrau glasu" a'r Gwanwyn wedi ein cyrraedd unwaith yn rhagor. Edrychwn ymlaen am weld rhai ohonoch yn ystod yr haf.**

*Y Golygyddion, Garreg Boeth,Capel Uchaf, Clynnog Fawr,Caernarfon, Gwynedd. LL54 5DH*

# Y CYMRY AR WASGAR

Y Dr. Edgar Jones o Genefa yn yr Yswistir fydd arweinydd y Seremoni Groesawu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghastell Nedd.

Un Wauncaegurwen yw'r Dr. Jones ac yno, ym mhwll glo yr *East Pit* y dechreuodd weithio yn 14 oed. Wedi 8 mlynedd yno - a threulio ei oriau rhydd yn astudio ar gyfer Ysgoloriaeth Lles y Glowyr - y cafodd ei dderbyn, yn 1934, i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth lle'r enillodd radd dosbarth cyntaf mewn Economeg.

Bu'n ddarlithydd yng Ngholeg y Brifysgol, Abertawe, am 2 flynedd cyn mynd i weithio i'r Arglwydd Keynon yn y Trysorlys. 'Roedd hyn ar gychwyn y Rhyfel 1939-45 pryd 'roedd y Llywodraeth yn ymdrechu'n galed i gynnal y wladwriaeth yn ogystal â chyllido'r Rhyfel. Bu hefyd, yn ddiweddarach, yn Gyfarwyddwr Ariannol Cydwladol yr *International Monetary Fund* ac yna yn bennaeth y Gronfa honno yn Ewrop.

# "TIR Y WERDDON FRAS"

Ymddengys bod cwmnïau llongau'r *Stena Sealink* a'r *B. & I. Line* yn ffyddiog am fusnes da rhwng Caergybi ac Iwerddon gan fod *B.& I.* wedi archebu llong o 23,000 o dunelli ar gyfer y gwasanaeth a fydd yn eu galluogi i dreblu'r hyn y gellir ei gludo ar hyn o bryd. Bydd wedyn yn 600 o geir a 1,760 o deithwyr.

Mae Cwmni'r *Stena Sealink* eisoes wedi cyhoeddi y bydd ganddynt hwy long gymaint â stadiwm bêl-droed yn gwasanaethu rhwng Caergybi ac Iwerddon erbyn y Gwanwyn nesaf.

# *"GWIN Y LLE A GWENAU LLON"*

Ni allwn ond dyfalu a ddaw Cymru yn enwog am ei gwinoedd ond, o hyn allan, bydd "*Welsh Vineyards Quality Wine*" yn argraffedig ar y poteli.

Rhyw gan mil o boteleidiau o win a gynhyrchir yng Nghymru bob blwyddyn, a hynny o'r ychydig winllanoedd a geir yn ne-ddwyrain y wlad. Ni allwn ddweud i ni weld yr un botel, hyd yma, ar silffoedd ein siopau er bod un cynhyrchydd yn honni bod peth i'w gael yn archfarchnadoedd *Safeway*.

---

### Y Machlud

Wrth weld yr haul yn machlud neithiwr
A'r holl win oedd yn ei barlwr,
Anodd credu iddo godi
Heb ddim ond noson fer i sobri.

Evan G. Hughes, Rhoshirwaun

# CIP AR LUNIAU DDOE

**Dyna'r pennawd ar un o golofnau *Y Cymro.* Rhydd hefyd lun o Lyn Lewis Dafis sy'n Guradur-Cynorthwyol yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Ofnwn na fedrwn ddangos y llun ond dyma fel y cychwynnir y stori:**

"Mae Arddangosfa yn y Llyfrgell Genedlaethol, yn cynnwys lluniau ambroteip o deulu clerigol.....

"Yn y lluniau clerigol gwelir 5 mab a thair merch Y Parchedig Thomas Richards, Darowen, ger Machynlleth. Y mae'r casgliad o 23 ffotograff sy'n dyddio o bumdegau'r ganrif ddiwethaf, yn cael eu hystyried yn unigryw.

"Mae enw'r ffotograffydd yn ddirgelwch ond credir bod y teulu wedi teithio i Feifod ar gyfer tynnu rhai o'r lluniau," meddai Lyn Lewis Dafis.

"Ar wahân i fod yn esiampl o fath cynnar o ffotograff mae'r casgliad yn arbennig am fod pob un o'r meibion yn glerigwyr fel eu tad. 'Roedd yr hynaf, Richard, yn Ficer ym Meifod yn y 50au ac mae'n debyg mai fe drefnodd y sesiwn tynnu lluniau."

'Roedd y chwiorydd hefyd yn hynod ac yn arbennig yr hynaf, Mary.

Fe'i gwnaed hi'n aelod anrhydeddus o Gymdeithas y Cymmrodorion fel cydnabyddiaeth o'i chyfraniad i lenyddiaeth Gymraeg . Dywedir ei bod yn copio llu o lawysgrifau ac yn llythyru'n gyson gyda llenorion blaenllaw ei dydd, meddai Lyn Lewis Dafis.

*O'r Cymro, Mawrth 9 1994*

---

Y llynnau gwyrddion llonydd - a gysgant
Mewn gwasgod o fynydd;
A thyn heulwen ysblennydd
Ar len y dŵr lun y dydd.

*Gwilym Cowlyd*

# YSGOLORIAETH SAUNDERS LEWIS

**Angharad Price, 22 oed, o Fethel, Caernarfon, yw enillydd cyntaf Ysgoloriaeth Cronfa Goffa Saunders Lewis.** Myfyrwraig o Goleg Iesu, Rhydychen, ydyw ac ar ôl cwblhau ei gradd mewn Almaeneg ym mis Mehefin eleni caiff felly dreulio chwe mis yn Vienna. Bydd yn ymchwilio i waith tri o feirdd cyfoes yr ugeinfed ganrif, sef Albert Ehrenstein, Franz Werfel ac Anton Wildgans.

Dywedodd Yr Athro Geraint Gruffudd, Cadeirydd y Gronfa, mai llawenydd mawr i'r Ymddiriedolwyr ac i deulu Saunders Lewis oedd cael ymgeisydd ifanc mor amlwg deilwng a disglair wedi cael ei phenodi yn ddeiliad cyntaf yr ysgoloriaeth.

# GWYNT a GWLAW

**Oherwydd y tywydd eithriadol a gawsom eleni mae'r ffermwyr wedi dioddef colledion trwm a'r rhagolygon yn edrych yn bur dywyll.**

Mae ffermwyr Sir Benfro yn ddibynnol i raddau helaeth ar dyfu tatws ond clywsom eu bod eisoes 5 wythnos yn hwyrach na'r arfer yn eu rhoi dan y gwys, a phryder y bydd tatws o wledydd eraill yn cyrraedd yma cyn y byddant yn barod i'w codi.

Mae ffermwyr defaid hefyd wedi cael colledion oherwydd y tywydd gwlyb cyson a gawsom ers mis Tachwedd a llawer o ŵyn ifainc yn colli'r dydd.

---

*Tri pheth ofer ymladd i'w herbyn,*
*Gwynt, môr, ac a fynno Duw.* *(Dihareb)*

# Angharad ... mewn trybini

Un o'r merched ifainc mwyaf gweithgar - sydd hefyd wedi dioddef carchar ragor nag unwaith - dros y Gymraeg yw Angharad Tomos o Lanwnda ger Caernarfon. Mae'n awdur adnabyddus ac enillydd Medal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae ganddi hefyd ei cholofn yn *Yr Herald Cymraeg,* ac yno ar 19eg o Fawrth, mae'n adrodd am ei phrofiad yn colli ei chôt, ei thocyn awyren a'i phasbort wrth ddychwelyd fel un o'r tîm cydwladol a fu'n gwylio'r pleidleisio yn Nicaragua. Dyma fel mae'n adrodd yr hanes:

"Yr unig obaith oedd prawf o'm Prydeindod.

*"Have you anything to prove that you're British?"* gofynnodd y ddynes.

Yr unig gerdyn yn fy meddiant oedd *"Observer of election, Nicaragua"* - da i ddim.

*"Anything with your name on?"* gofynnodd yn daer. Llyfr o Gerddi Parry-Williams - da i ddim. 'Dwi'n credu mai crwydro Maes Awyr Houston yn cardota fyddwn i hyd heddiw, onibai i'r ddynes gael fflach o weledigaeth. Ffoniodd yr *Immigration Officer* yn Gatwick a gofyn i mi siarad ag o.

*"With an accent like that you can't be anything but Welsh,"* meddai hwnnw, cyn sibrwd y geiriau hud *"Let her through."*

"Diolch byth," meddyliais, a dyna fu fy achubiaeth.

# LLWYDDIANT ....... ariannol

**Er i lai o bobol ymweld â maes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelwedd y llynedd deallwn y geill yr elw fod oddeutu £20,000.**

**Gan fod costau'r Eisteddfod yn £1.3 miliwn mae llawer o'r clod am ei llwyddiant yn ddyledus i'r Pwyllgorau lleol a gasglodd £102,000, oedd £12,000 yn rhagor na'r nod a osodwyd iddynt.**

---

*Arian a wna i'r gaseg duthio. (Dihareb)*

# EGLWYS DDIGROESO

## ... i ferched?

**Mae canlyniad y bleidlais, sef gwrthod ordeinio merched, wedi siomi llu o aelodau'r Eglwys yng Nghymru.**

**Ymddengys mai o saith pleidlais yn unig y collwyd y cyfle i efelychu'r hyn a ddigwyddodd yn Lloegr y llynedd.**

Yr ofn bellach yw y bydd merched sydd wedi bod yn ddiaconiaid yn gadael yr Eglwys yng Nghymru ac yn croesi'r ffin i Loegr yn ogystal â'r perygl i rai uniaith Saesneg o Loegr - oedd yn erbyn ordeinio merched - ddod i Gymru.

'Roedd Archesgob Cymru, y Gwir Barchedig Alwyn Rice Jones, ynghyd â 5 allan o 6 o'r Esgobion o blaid yr ordeinio, ond mae sôn erbyn hyn fod hawl gan Esgobion unigol i ordeinio'r merched o fewn eu Hesgobaethau eu huanin.

Fel hyn y dywed Yr Athro R. Tudur Jones (Cyn-brifathro Coleg yr Annibynwyr) yn ei golofn yn *Y Cymro:*

"O ystyried cyflwr ysbrydol enbyd ein cenedl.... byddai'n drychineb pe bai'r mwyaf o'n henwadau yn treulio rhagor o flynyddoedd uwchben cwestiwn y mae eglwysi eraill wedi dod i benderfyniad ynglyn ag ef ers cenedlaethau."

# AMGUEDDFA

Penderfynodd Cyngor Arfon annog Amgueddfa Genedlaethol Cymru i ystyried sefydlu Amgueddfa Dreftadaeth y Werin yn ardal Llanberis, tebyg i'r un yn Sain Ffagan.

Fe wnaed y penderfyniad ar argymhelliad Is-bwyllgor Twristiaeth y Cyngor.

*O'r Herald Cymraeg, Mawrth 19 1994*

# BRYNMELYN

**Canolfan i droseddwyr ifainc na wyddai odid neb amdani y tu allan i gylchoedd Y Bala oedd ffermdy Brynmelyn ond sydd bellach a'i henw yn wybyddus trwy Brydain gyfan.**

Bu peth sôn amdani rai misoedd ynghynt pan ymosododd genethod o'r Ganolfan ar enethod lleol. Ond pan aed â bachgen 17 oed oddi yno ar saffari i Affrica ar gost o £7,000 y cododd y storm ac y trafodwyd yr achos yn y Senedd yn Llundain.

Disgrifiwyd y polisi hwn gan Virginia Bottomley, yr Ysgrifennydd Iechyd, fel "gwallgofrwydd" a dywedai John Bowis, Aelod Seneddol, nad oedd trefnu teithiau fel hyn yn gwneud un dim i atal rhai eraill rhag troseddu a bod gwahaniaeth enfawr rhwng gweithgareddau awyr-agored a gwyliau saffari gan fod yr olaf yn edrych fel gwobr yn hytrach na chosb.

Dywedir mai bwriad y teithiau hyn yw datblygu cymeriad y troseddwr ond mae'r Weinyddiaeth Iechyd erbyn hyn wedi rhybuddio'r Awdurdodau Lleol nad ydynt i gefnogi gweithgaredd o'r fath gan mai arian y trethdalwyr fyddai'n talu am y cynllun.

Clywsom i'r bachgen ifanc gyfaddef iddo droseddu 36 o weithiau o fewn ychydig ddyddiau ar ôl iddo ddychwelyd o Affrica a gosodwyd ef yng ngofal y Ganolfan am flwyddyn yn rhagor.

Y sôn diweddaraf un a gawsom yw fod cryn hanner dwsin o droseddau newydd sbon wedi eu cyflawni gan y bachgen hwn y dyddiau diwethaf hyn.

# *Y GYMRAEG YN AWSTRALIA*

**Erbyn hyn darlledir rhaglen radio fisol Gymraeg yn Awstralia.** Mae'n cynnwys recordiau, sgyrsiau a newyddion ac yn para am awr.

Rhan yw hyn o wasanaeth radio newydd i leiafrifoedd ledled y wlad a'r trefnydd yw Geraint Evans o Adran Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Sidney.

Nid mewn undydd unnos y digwyddodd hyn. Am y 12 mlynedd diwethaf bu Robin Jones, Prif Gyflwynydd Sianel 4 Cymru, yn cyfrannu newyddion i raglen radio yn ardal Sidney, ac ef a lansiodd y gwasanaeth newydd eleni.

# HOGIA'R PARTI LLIW ...

Cafodd saith o genedlaetholwyr Cymraeg eu rhyddhau'n amodol am 12 mis ar ôl eu cael yn euog o wisgo iwnifforms politicaidd yng ngorymdaith flynyddol Merthyron Abergele (a laddwyd gan eu bom eu hunain adeg Arwisgo Tywysog Cymru yn 1969).

O dan ddeddf trefn gyhoeddus yn dyddio o 1936 y daethpwyd ag achos yn eu herbyn - sy'n gwahardd gwisgo iwnifform sy'n gysylltiedig â phlaid neu fudiad gwleidyddol. Gwadwyd y cyhuddiad.

'Roedd y saith wedi bod yn gwisgo berets duon, sbectol haul, a chrysau gwyn a bathodynnau'n datgan "Parti Lliw Meibion Glyndŵr".

Ar ôl achos yn para am ddeuddydd gorchmynnodd ynadon bae Colwyn y dylai'r diffynyddion gael y sbectolau haul a'r dillad yn ôl, ond nid y bathodynnau.

*O'r Herald Cymraeg, Ebrill 9, 1994*

---

Y mae'r adar bach yn nythu,
Dyddiau C'lanmai sydd yn nesu,
Cymerwch galon, fy mwyn frodyr,
Fe ddaw gwaith i fin y bladur.

******

Gallaf roddi dŵr i'm ceffyl,
Gallaf sefyll yn ei ymyl,
Gallaf ddwndro a rhythu llyged,
Ni allaf wneud i'r march mo'r yfed.

*Hen Benillion*

# PYTIAU
# o EISTEDDFOD NEDD

Dyma ddyfyniad o'r awdl fuddugol ym meirniadaeth Idris Reynolds lle y cyfeiria at y "chwerwedd yng nghalon y glowr sy'n gwylio machlud hen ffordd o fyw."

*Mae gwast lle bu bwrlwm gwaith,*
*uffern o sbwriel diffaith,*
*llanast rwbel a gwastraff,*
*darnau o rwd, rhyw hen raff,*
*rhannau o'r gêr yn rhu'r gwynt*
*sy'n treiddio'n gyson trwyddynt.*

Dyfyniad ym meirniadaeth Nesta Wyn Jones yng Nghystadleuaeth y Goron: Dyma fel y cân y cystadleuydd efo'r ffugenw *Tua'r Gorllewin* i'r "Lili Wen Fach".

*Dim ond lodes fach*
*oedd ar y lawnt.*
*Wedi mentro neidio o'i sach gysgu*
*yn y pridd*
*cyn ei ffrindiau ...*
*Safai ar ei hungoes fain,*
*yn plygu pen*
*fel petai'n sorri.*

Nid oedd neb yn deilwng o'r wobr yng nghystadleuaeth yr Englyn Ysgafn i *Bwgan* ond mae'r beirniad Tegwyn Jones yn dyfynnu hwn gan *Gilwern* yn ei feirniadaeth:

*Yn fynych wrth fy hunan - yn y nos*
*Nid yw'n hawdd troi allan;*
*I hen begor ofn bwgan*
*Arfau gwael yw nerfau gwan.*

T. Arfon Williams o Gaeathro ger Caernarfon ddaeth eleni yn fuddugol am y chweched tro efo'r Englyn Unodl Union. Y testun oedd *Cyfrifiadur:*

*Nid chwarae gyda graean - na chwarae*
*â cherrig mae'r bychan;*
*ar ôl eu hel hwy ar lan*
*y môr mae'n cofio'r cyfan.*

# Yng Nghlust y Teleffôn

**Clywsom fod**

- y cyngherddau a gynhaliwyd gan Gôr Meibion y Gaiman yng Nghymru yn ystod mis Gorffennaf yn llwyddiant ysgubol a phleser oedd gweld cynifer o'r aelodau yn siarad Cymraeg.
- bwydydd Ariannin ar fyrddau Cymru y dyddiau hyn o ganlyniad i'r llyfr rysetiau a gasglwyd gan Cathrin Williams pan oedd hi yn y Wladfa yn gynharach eleni.
- Cylch Llenyddol wedi ei sefydlu yn Nhrelew a'r Gaiman ac 'rydym yn falch dros ben o glywed hynny.
- yr arlunydd Kyffin Williams am roi un o'i dirluniau i Gymdeithas Cymry Ariannin i godi arian trwy raffl.
- gyda gofid y cyhoeddwn i ni glywed heddiw am farw'r Fns. Helen Lewis, Llanrhaeadr, yn 90 oed.

---

# Cystadleuaeth

**Casgliad o feddargraffiadau Cymraeg o'r Wladfa oedd testun y gystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Nedd a'r Cyffiniau, 1994, i rai sydd wedi byw yn Ariannin ar hyd eu hoes ac sy'n dal i fyw yno. Yr enillydd oedd May Williams de Hughes, Trelew, (£80) a dyfarnwyd yr ail wobr i Gwalia Davies de Evans, Dolavon (£20) â chanmoliaeth uchel. Mae gan y beirniad ganmoliaeth uchel i'r rhai eraill a fu'n cystadlu hefyd, ac meddai, gan nodi eu ffugenwau: "Gofaled *Mary Ann* a *Gwawr* y cedwir eu casgliadau hwythau yn ddiogel ac wrth law fel y gall eraill eu mwynhau."**

**Dyma'r testun i gystadlu arno ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Bro Colwyn 1995:**

*Cystadleuaeth i rai sydd wedi byw yn y Wladfa ar hyd eu hoes ac yn dal i fyw yn Ariannin.*

Ysgrif neu draethawd:

ENNILL FY MARA

Beirniad: Cathrin Williams

Bydd Cymdeithas Cymry Ariannin yn rhoi gwobr o £100 i'w rannu yn ôl doethineb y beirniad.

Y dyddiad cau yw Ebrill 1af 1995.

---

# ? ? ?

Chwiliwch am atebion i'r canlynol yn y Papur hwn. Os anfonwch atom i'r cyfeiriad a geir ar y tudalen cyntaf erbyn Hydref 10 1994 rhoir eich ymgais mewn het a'r sawl a anfono yr atebion cywir a dynnir ohoni yn unig gaiff gyhoeddi ei enw yn y rhifyn nesaf o *Yr Hen Wlad.*

1. Enw pa ŵr efo gradd sy'n cynganeddu efo *miloedd*?
2. Pa ddau sydd am gynnig gwasanaeth er mwyn y Gymraeg?
3. Beth geir mewn potiau bychain?
4. Pwy yw Golygydd *Yr Herald*?
5. Beth sy'n plygu pen?
6. Beth yw gwaith Glyn?
7. Faint yn rhagor na 630 a gneifiwyd?
8. Pwy oedd Caitlin?
9. Ym mhle mae saith yn rhagor na Fflat Huw Puw?
10. Enwch Gymry sydd wedi cael tri chynnig.
11. Ym mha bentref y ceir bref?
12. Beth a wna'r bychan?

# Y Lein Bach

Wedi blynyddoedd o baratoi mae Cwmni Rheilffordd Ucheldir Cymru 1964 wedi colli eu hawl i ddal ati i adnewyddu ac ymestyn y rheilffordd gul a arweiniai o Borthmadog trwy Feddgelert a Rhyd-ddu am Gaernarfon.

Roedd y Cwmni gwreiddiol wedi dod i ben ers yn agos i drigain mlynedd a pherchenogaeth y tir yn nwylo'r derbynnydd. Mawr obeithiai Cwmni 1964 gael yr hawl ar y cyd â Chyngor Sir Gwynedd i'w hailagor yn hytrach na Chwmni Rheilffordd Ffestiniog oedd hefyd yn ysu amdani.

Caed ymchwiliad cyhoeddus rai misoedd yn ôl pryd y dyfarnodd arolygydd o'r Swyddfa Gymreig dros Gwmni 1964 ond yna, yn hollol annisgwyl dyfarnodd John MacGregor, oedd ar ei ddyddiau olaf yn y swydd o Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, o blaid Cwmni Ffestiniog.

Deallwn fod Cynghorwyr Gwynedd yn bur siomedig am y fath ddyfarniad.

# MEDAL

**Yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, Dewi Jones, cyn-brifathro Ysgol Gynradd Y Benllech, Ynys Môn, gafodd ei anrhydeddu â Medal Syr T.H. Parry-Williams.**

**Fe'i derbyniodd hi er clod am ei gyfraniad i'r bywyd Cymraeg ym Môn.**

Mae'n adnabyddus fel beirniad mewn gwahanol eisteddfodau, yn rhai lleol a chenedlaethol. Ef yw Golygydd y Papur Bro *Yr Arwydd* ac Ysgrifennydd Cymdeithas Lenyddol Bro Goronwy.

Mae wedi chwarae rhan flaenllaw yn Eisteddfod Môn trwy fod yn Olygydd Llenyddol ac yn Gadeirydd yr Eisteddfod, ac erbyn hyn mae'n Llywydd Anrhydeddus Llys yr Eisteddfod honno. Un o'i gyfraniadau mawr fu sefydlu canghennau o'r Urdd yng Nghemaes, Llanfairpwllgwyngyll a'r Benllech.